

Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach

Heol Roseland, Waunarlwydd, Abertawe, SA5 4ST

Ffôn / Tel: 01792 874399

E-bost / E-mail: ygg.loginfach@swansea-edunet.gov.uk

Gwefan / Website: www.yloginfach.co.uk

Trydar / Twitter: @LoginFach



21/4/23

Wythnos nesaf yn Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach

Next week at Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach

Dydd Llun/Monday 24/4/23	Ymweliad Ffair Lyfrau Scholastic – ysgol gyfan. <i>Scholastic Book Fair visit – whole school.</i>
Dydd Mawrth/Tuesday 25/4/23	Dosbarth Blwyddyn 2 Mrs Evans-Jones – Sesiwn stori 2 gyda Stephanie – Jac ar yr afon. <i>Mrs Evans-Jones' Year 2 class – Story session 2 with Stephanie – Jac ar yr afon.</i>
Dydd Mercher/Wednesday 26/4/23	Clwb Capel Seion – i'r rhai sydd wedi cofrestru. <i>Clwb Capel Seion – for registered pupils.</i>
Dydd Iau/Thursday 27/4/23	Gwersi ffidil yn ailgychwyn i unigolion. <i>Violin lessons recommence for individual pupils.</i> Blwyddyn 1 a 2 /Year 1 and 2 - Clwb yr Urdd
Dydd Gwener/Friday 28/4/23	/

- **Llongyfarchiadau mawr i dîm rygbi'r merched a thîm rygbi'r bechgyn o flynyddoedd 5 a 6 a fu'n cystadlu yn nhwrnamaint rygbi'r Urdd ar Ddydd Mercher. Bu'n gystadleuaeth anodd i'r ddau dîm ond llwyddodd y ddau dîm ddod yn ail yn eu cystadlaethau. Fel ysgol, rydym yn falch iawn ohonynt ac yn eu canmol am eu llwyddiant. Da iawn chi!**
Many congratulations to the girls' rugby team and the boys' rugby team from years 5 and 6 who competed in the Urdd rugby tournament on Wednesday. Despite the challenge, both teams succeeded in coming second in their competitions. As a school, we are very proud of them and praise them for their success. Well done!
- **Bydd Ffair Lyfrau Scholastic yn dod i'r ysgol ar Ddydd Llun am wythnos a bydd cyfle gyda phob dysgwr i ymweld â'r silffoedd llyfrau i ddewis llyfr / llyfrau. Mae Scholastic yn rhoi canran o'r arian y gwariwyd yn ystod yr wythnos i'r ysgol. Bydd eich plentyn yn dod adref, yn ystod yr wythnos, gyda nodyn archeb sy'n nodi'r llyfr a chost y llyfr maent wedi dewis. Talwch am y llyfr / llyfrau gydag arian parod mewn amlen gyda'r nodyn archeb, ynghyd ag enw eich plentyn a'u dosbarth wedi nodi'n glir ar y blaen. Bydd angen yr arian cyn derbyn y llyfr/llyfrau os gwelwch yn dda.**

Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach

Heol Roseland, Waunarlwydd, Abertawe, SA5 4ST

Ffôn / Tel: 01792 874399

E-bost / E-mail: ygg.loginfach@swansea-edunet.gov.uk

Gwefan / Website: www.yloginfach.co.uk

Trydar / Twitter: @LoginFach



Hoffwn eich hysbysu, efallai na fydd dewis eich plentyn ar gael i ddod adref y noson honno ond bydd archeb yn cael ei osod a bydd y llyfrau yn cyrraedd o fewn y pythefnos yn dilyn y ffair. Diolch i chi am eich cydweithrediad.

The Scholastic Book Fair will come to the school on Monday for a week and all learners will have the opportunity to visit the bookshelves to choose a book/books. Scholastic gives a percentage of the money spent during the week to the school. Your child will come home, during the week, with an order note stating the name of the book and the cost of the book they have chosen. Please pay for the book/books with cash in an envelope clearly marked with your child's name and class on the front. Money will be required before receiving the book. Please note, your child's choice may not be available to bring home that night, but an order will be placed and the books will arrive within the two weeks following the fair. Thank you for your cooperation.

- **Gofynnir i rieni, gwarchodwyr a pherthnasau yrru yn ofalus wrth ddod a'ch plant i'r ysgol yn y bore a chasglu ar ddiwedd dydd. Mae'r cyffordd rhwng Heol Roseland a lôn yr ysgol yn brysur iawn yn ystod yr adegau yma. Felly gyrrwch yn ofalus os gwelwch yn dda er mwyn cadw eich plant yn ddiogel.**
Parents, guardians and relatives are asked to drive carefully when bringing your children to school in the morning and collecting at the end of the day. The junction between Roseland Road and the school lane is very busy during these times. So please drive carefully to keep your children safe.
- **Hoffwn ddiolch yn fawr i chi gyd; plant, staff a rhieni, am y croeso hyfryd rydych chi wedi rhoi i mi yr wythnos yma.**
I would like to thank you all very much; pupils, staff and parents, for the wonderful welcome you have given me this week.

Mwynhewch eich penwythnos / Enjoy your weekend.

Yn ddiffuant / Yours faithfully,

Mrs Katrin Parkhouse

Pennaeth / Headteacher